CTC 30
Ymgynghoriad ar rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned
Consultation on the role, governance and accountability of the community and town council sector
Ymateb gan: Cyngor Cymuned Llanboidy
Response from: Llanboidy Community Council

Gosen
Llanboidy
Whitland
Sir Gaerfyrddin SA34 0EJ

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru

18fed Hydref 2024

**Lansiad ymgynghoriad – rol, llwyodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned**

Diolch am y gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, gobeithio byddwch yn talu sylw at y sylwadau isod gan bod gwaith cynghorwyr wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf gan greu mwy o waith.

Rwy'n aelod o gyngor sydd a phoblogaeth o 1,000 dros dalgylch eang, y rhan fwyaf yn byw y tu fas i'r pentref.  Ar hyn o bryd ma 10 o gynghorwyr yn cynrychioli tua 800 o etholwyr.  Gan bod y precept mor fach, mae bron yn amhosib i gynnig gwasanaeth effeithiol, ac rwy'n rhagweld na fydd gwirfoddolwyr yn barod i wneud gwaith cynghorwyr yn y dyfodol.

Mae ffeindio Clercod a'u cadw yn broblem ac yn un gostus.  Byddwn i'n meddwl ystyried cyflogu clerc llawn amser drwy'r Cyngor Sir i wneud y gwaith dros ryw bump cymuned, a thrwy hynny, arbed arian prin.

Mae sefyllfa difyg band-eang cyflym yng ngefn gwlad yn creu problemau, yn enwedig i fusnesau a'r clerc,

Gobeithiwn y byddwch yn cymryd y sylwadau i mewn i ystyriaeth ac mi fyddem yn croesau unrhyw drafodaeth pellach.

Yn gywir,

Susan Evans

Cadeirydd
Cyngor Cymuned Llanboidy